# Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

**2011 mccc 2**

**1 Dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn**

(1) Oddi ar ddechrau Mai 2014, rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau, roi sylw dyledus i ofynion—

(a) Rhan I o'r Confensiwn,

(b) erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog, ac eithrio erthygl 6(2), ac

(c) erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

(2) Oddi ar ddechrau Mai 2012 hyd at ddiwedd Ebrill 2014, rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud unrhyw benderfyniad sydd yn dod o fewn is-adran (3), roi sylw dyledus i ofynion Rhan I o'r Confensiwn a'r Protocolau.

(3) Mae penderfyniad yn dod o dan yr is-adran hon os yw'r penderfyniad yn ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) darpariaeth y bwriedir ei chynnwys mewn deddfiad;

(b) fformiwleiddio polisi newydd;

(c) adolygiad o bolisi sydd eisoes mewn bod neu newid i bolisi sydd eisoes mewn bod.

(4) Mae cyfeiriadau yn y Mesur hwn at ddyletswydd Gweinidogion Cymru o dan yr adran hon yn cyfeirio—

(a) oddi ar ddechrau Mai 2012 hyd at ddiwedd Ebrill 2014, at y ddyletswydd yn is adran (2); a

(b) oddi ar ddechrau Mai 2014, at y ddyletswydd yn is-adran (1).

(5) Mae'r adran hon yn gymwys i'r Prif Weinidog ac i Weinidogion Cymru fel ei gilydd (ac mae unrhyw gyfeiriad yn y Mesur hwn at y ddyletswydd o dan yr adran hon i'w ddarllen yn unol â hynny).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I1** A. 1 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 2 Cynllun y plant

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud cynllun ("cynllun y plant") sy'n gosod y trefniadau y maent wedi eu gwneud, neu y maent yn bwriadu eu gwneud, at ddiben sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1.

(2) Caiff y cynllun—
(a) ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ar weithrediad y cynllun neu ar unrhyw fater arall a grybwyllir ynddo (yn ychwanegol at yr adroddiadau sy'n ofynnol o dan adran 4(1)), a
(b) pennu materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr adroddiadau hynny neu mewn adroddiadau o dan adran 4(1).

(3) Caiff y cynllun gynnwys unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn pen chwe mis ar ôl i'r Pwyllgor wneud unrhyw awgrym neu argymhelliad cyffredinol o dan erthygl 45(d) seiliedig ar adroddiad gan y DU, ystyried p'un ai i adolygu neu ail-wneud y cynllun yng ngoleuni'r awgrym hwnnw neu'r argymhelliad hwnnw.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu neu ail-wneud y cynllun ar unrhyw adeg.

(6) Yn yr adran hon—
(a) ystyr "y Pwyllgor" yw'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn a sefydlwyd o dan erthygl 43(1);
(b) ystyr "adroddiad gan y DU" yw adroddiad a gyflwynir gan y Deyrnas Unedig o dan erthygl 44(1)(b); ac
(c) mae unrhyw gyfeiriad at erthygl yn gyfeiriad at yr erthygl honno o'r Confensiwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I2** A. 2 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 3 Llunio a chyhoeddi'r cynllun

(1) Wrth lunio, ail-wneud neu adolygu cynllun y plant, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—
(a) unrhyw adroddiad gan y Pwyllgor o dan erthygl 44(5) neu astudiaeth a wneir o dan erthygl 45(c);
(b) unrhyw adroddiadau, awgrymiadau, argymhellion cyffredinol neu ddogfennau eraill a ddyroddir gan y Pwyllgor sy'n ymwneud â rhoi'r Confensiwn neu'r Protocolau ar waith gan y Deyrnas Unedig.

(2) Wrth lunio, ail-wneud neu adolygu cynllun y plant, caiff Gweinidogion Cymru roi sylw i unrhyw ddogfennau eraill (p'un a ddyroddir hwy gan y Pwyllgor ai peidio) ac i unrhyw faterion eraill sydd yn eu barn hwy yn berthnasol.

(3) Cyn gwneud, ail-wneud neu adolygu cynllun y plant, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi drafft o'r—

(a) cynllun, neu

(b) pan fônt yn bwriadu adolygu'r cynllun, naill ai'r adolygiadau neu'r cynllun fel y'i adolygwyd.

(4) Wrth lunio drafft i'w gyhoeddi o dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod—

(a) plant a phobl ifanc,

(b) Comisiynydd Plant Cymru, ac

(c) unrhyw bobl neu gyrff eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol,

yn cael rhan mewn llunio'r drafft.

(5) Cyn gwneud, ail-wneud neu adolygu cynllun y plant, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r bobl a ganlyn ynghylch y drafft a gyhoeddir o dan is-adran (3)—

(a) plant a phobl ifanc,

(b) Comisiynydd Plant Cymru, ac

(c) unrhyw bobl neu gyrff eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud, ail-wneud nac adolygu cynllun y plant oni bai bod drafft o'r—

(a) cynllun, neu

(b) pan fônt yn bwriadu adolygu'r cynllun, naill ai'r adolygiadau neu'r cynllun fel y'i adolygwyd,

wedi ei osod gerbron y Cynulliad ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o'r cynllun gerbron y Cynulliad (yn unol ag is-adran (6)(a)) ar neu cyn 31 Mawrth 2012.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynllun y plant pan fyddant yn ei wneud a phryd bynnag y byddont yn ei ail-wneud; ac, os ydynt yn adolygu'r cynllun heb ei ail-wneud, rhaid iddynt gyhoeddi naill ai'r adolygiadau neu'r cynllun fel y'i adolygwyd (fel sy'n briodol yn eu barn hwy).

(9) Os yw Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cynllun neu adolygiadau o dan is-adran (8) rhaid iddynt osod copi o'r cynllun neu'r adolygiadau gerbron y Cynulliad.

(10) Yn yr adran hon—

(a) ystyr "y Pwyllgor" yw'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn a sefydlwyd o dan erthygl 43(1); a

(b) mae unrhyw gyfeiriad at erthygl yn gyfeiriad at yr erthygl honno o'r Confensiwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 3 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 4 Adroddiadau

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ar neu cyn 31 Ionawr 2013, a

(b) ar neu cyn diwedd pob cyfnod dilynol o bum mlynedd, neu o unrhyw hyd arall a bennir yng nghynllun y plant,

gyhoeddi adroddiad ar sut y maent hwy a'r Prif Weinidog wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan adran 1.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw adroddiadau eraill sy'n ofynnol yn unol ag adran 2(2)(a).

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad gopi o bob adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (1) neu (2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 4 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 5 Dyletswydd i hybu gwybodaeth o'r Confensiwn

Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd y camau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn a'r Protocolau ymhlith y cyhoedd (gan gynnwys plant).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 5 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 6 Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth etc

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw adroddiad a gyhoeddir o dan 4(1) neu (2) yn dod i'r casgliad y byddai'n ddymunol, at ddibenion rhoi effaith bellach neu effaith well i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yn Rhan I o'r Confensiwn a'r Protocolau, i ddiwygio deddfiad neu offeryn uchelfreiniol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud drwy orchymyn unrhyw ddiwygiadau i'r deddfiad hwnnw neu i'r offeryn hwnnw sydd yn eu barn hwy yn briodol yn sgil yr adroddiad.

(3) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan is-adran (2) os nad yw'r ddarpariaeth a wneir gan y gorchymyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar y pryd.

(4) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (2) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r bobl hynny neu â'r cyrff hynny sydd ym marn Gweinidogion Cymru yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I6** A. 6 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 7 Cymhwyso i bobl ifanc

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried p'un a gaiff ac (os felly) i ba raddau a chyda pha ddiwygiadau y caiff—
(a) gofynion Rhan I o'r Confensiwn a'r Protocolau fod yn berthnasol i bobl ifanc, a
(b) gofynion y Mesur hwn gael eu cymhwyso o ran pobl ifanc.

(2) Rhaid i gynllun y plant (pan wneir ef yn gyntaf) gynnwys datganiad ar fwriadau Gweinidogion Cymru i ymgynghori ar y materion a grybwyllir yn is-adran (1).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, wrth ymgynghori ar y materion a grybwyllir yn is-adran (1), ymgynghori ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â phobl ifanc sydd yn eu barn hwy yn briodol.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar eu casgliadau o dan is-adran (1).

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad gopi o unrhyw adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (4).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn —
(a) gymhwyso unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn o ran pobl ifanc;
(b) wneud unrhyw ddarpariaeth arall sydd yn eu barn hwy yn briodol er mwyn rhoi effaith, o ran pobl ifanc, i unrhyw un neu ragor o'r gofynion yn Rhan I o'r Confensiwn a'r Protocolau.

(7) Caiff gorchymyn o dan is-adran (6)(a) wneud unrhyw addasiadau o'r darpariaethau a gymhwysir ganddo sydd yn briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

(8) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (6) rhaid i Weinidogion Cymru—
(a) gyhoeddi drafft o'r gorchymyn, a
(b) ymgynghori ar y drafft â'r bobl neu'r cyrff sydd yn eu barn hwy yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I7** A. 7 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 8 Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn

(1) Yn y Mesur hwn—
(a) ystyr "y Confensiwn" yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i gytuno gan benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 44/25 20 Tachwedd 1989, a
(b) ystyr "y Protocolau" yw'r Protocolau Dewisol a grybwyllir yn adran 1(1)(b) ac (c).

(2) Yn yr Atodlen i'r Mesur hwn—
(a) mae Rhan 1 yn rhoi testun Rhan I o'r Confensiwn,

(b) mae Rhan 2 yn rhoi testun erthyglau'r Protocolau y cyfeirir atynt yn adran 1(1)(b) ac (c), a
(c) mae Rhan 3 yn rhoi testun y datganiadau gan y Deyrnas Unedig i'r Confensiwn a'r Protocolau.

(3) At ddibenion y Mesur hwn, mae'r Confensiwn a'r Protocolau i'w trin fel petai iddynt effaith—
(a) fel y'u rhoddir am y tro yn Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen, ond
(b) yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad fel y'u rhoddir am y tro yn Rhan 3 o'r Atodlen.

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys os yw'r Deyrnas Unedig wedi llofnodi neu wedi mynegi fel arall ei chytundeb i—
(a) diwygiad i'r Confensiwn neu i brotocol a roddir am y tro yn yr Atodlen, neu
(b) protocol ychwanegol i'r Confensiwn.

Ond nid yw'r is-adran honno yn gymwys os yw is-adran (7) yn gymwys o ran y diwygiad neu'r protocol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru wneud drwy orchymyn ddiwygiadau i adran 1(1), 8(1), 8(2) neu 8(3) o'r Mesur hwn neu i'r Atodlen i'r Mesur hwn i adlewyrchu—
(a) y diwygiad neu'r protocol, a
(b) unrhyw ddatganiad neu neilltuad gan y Deyrnas Unedig i'r diwygiad neu i'r protocol.

(6) Mae is-adran (7) yn gymwys os yw'r Deyrnas Unedig wedi cadarnhau—
(a) diwygiad i'r Confensiwn neu i brotocol a roddir am y tro yn yr Atodlen, neu
(b) protocol ychwanegol i'r Confensiwn.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud drwy orchymyn ddiwygiadau i adran 1(1), 8(1), 8(2) neu 8(3) o'r Mesur hwn neu i'r Atodlen i'r Mesur hwn i adlewyrchu—
(a) y diwygiad neu'r protocol, a
(b) unrhyw ddatganiad neu neilltuad gan y Deyrnas Unedig i'r diwygiad neu i'r protocol.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud drwy orchymyn ddiwygiadau i Ran 3 o'r Atodlen i adlewyrchu unrhyw weithred o ddiwygio neu dynnu yn ôl o unrhyw ddatganiad neu neilltuad a roddir am y tro yn y Rhan honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I8** A. 8 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 9 Darpariaethau dehongli eraill

Yn y Mesur hwn

ystyr "y Cynulliad" (*the Assembly)* yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "deddfiad" (*enactment*) yw—
(i) Deddf Seneddol,
(ii) Mesur neu Ddeddf Cynulliad,

(iii) is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr adran 21(1) o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30), neu

(iv) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan unrhyw un o Fesurau neu Ddeddfau'r Cynulliad;

ystyr "plentyn" (*child*) yw person nad yw wedi cyrraedd 18 oed;

ystyr "pobl ifanc" (*young person*) yw pobl sydd wedi cyrraedd 18 oed ond nid 25 oed.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** A. 9 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 10 Gorchmynion

(1) Mae unrhyw orchymyn o dan y Mesur hwn i'w wneud drwy offeryn statudol.

(2) Rhaid i offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 6 neu 7 beidio â chael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

(3) Ni chaniateir i unrhyw drafodion gael eu cynnal yn y Cynulliad er mwyn cymeradwyo drafft offeryn sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 6 neu 7 cyn diwedd y cyfnod o 40 niwrnod fel y'i diffinnir yn is-adran (6).

(4) Rhaid i ddrafft o offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 8 gael ei osod gerbron y Cynulliad cyn i'r offeryn gael ei wneud a rhaid peidio â gwneud yr offeryn cyn diwedd y cyfnod o 40 niwrnod fel y'i diffinnir yn is-adran (6).

(5) Nid yw adran 6(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys i ddrafft o offeryn sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 8.

(6) At ddibenion is-adrannau (3) a (4), mae'r cyfnod o 40 niwrnod yn dechrau ar y diwrnod pryd y gosodir yr offeryn drafft gerbron y Cynulliad, heb gymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 10 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 11 Cychwyn

Daw'r Mesur hwn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y diwrnod pan gymeradwyir ef gan Ei Mawrhydi yn ei Chyngor.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** A. 11 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

## 12 Enw byr

Enw'r Mesur hwn yw Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** A. 12 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.